

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Dinbych, Nos Fercher Mai 10fed 2022 am 6.30yh trwy Zoom.

Presennol: Cyngorwyr Alyn Ashworth, Catherine Jones, Jan Tomlinson, Gaynor Wood-Tickle, Roy Tickle, Lara Pritchard, Gaynor Morgan Rees, Sioned Garrod & Andrew Hine; Jenny Barlow (Clerc y Dref) & Jo Davies Cynorthwydd dinesig a digwyddiadau: Norma Rowles (Gweinidog Lleyg Trwyddedig), Tad George Areekuzhy, Stuart Owen (Marshall Dinesig), Peter Glynn & Bryn Williams (swyddog dinesig).

Roedd cyfleusterau hybrid ar gael.

Ymddiheuriadau: Y Cyng Philip Stevens a Sylvia Jennings

Croesawodd y Maer, y Cyngorwyr Alyn Ashworth bawb i'r Cyfarfod Blynyddol.

- 1 Gweddïau:** Agorodd cynrychiolydd Caplaniaid y Maer am y noson, Norma Rowles (Gweinidog Lleyg Trwyddedig) y cyfarfod gyda gweddïau.
- 2 Adroddiad Blynyddol y Maer:** Cyflwynodd y Maer, Cyng Alyn Ashworth adolygiad o flwyddyn ddinesig 2023/2024 a thynnodd sylw at y prif ddigwyddiadau a oedd wedi digwydd. Hefyd cyflwynodd y Maer sic o £617.95 yr un i'w 4 elusen ddewisol – Ty Gobaith, St Kentigern, North Clwyd Animal Rescue a Sense. Yna cyflwynodd y Maer y Cyng Alyn Ashworth anrhegion o ddiolch i'r Maer Etholedig y Cyng Catherine Jones a Chlerc y Dref Jenny Barlow.
- 3 Ethol Maer am y Flwyddyn:** Cynigodd y Cyng Jan Tomlinson, ac eiliwyd gan y Cyng Gaynor Wood-Tickle ethol y Cyng Catherine Jones yn Faer Dinbych ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2024 / 2025. Ni chynigiwyd unrhyw enwebiadau eraill a phleidlais o gytundeb i ethol y Cyng Catherine Jones yn Faer Cymerwyd Dinbych ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2024 / 2025 trwy godi dwylo gan yr holl Gynghorwyr. Darllenodd ac arwyddodd y Cyng Catherine Jones y Datganiad Statudol Derbyn Swydd ym mhresenoldeb Clerc y Dref, y Cynigydd a'r Eilydd. Cyflwynodd y Cyng Alyn Ashworth Gadwyn y Swydd i'r Cyng Catherine Jones.
- 4** Cyflwynodd y Maer Plac Dinesig a Bathodyn y Cyn Faer i'r Cyngorwyr Alyn Ashworth i goffau ei flwyddyn yn y swydd.
- 5 Pleidlais o Ddiolch:** Cynigodd y Cyng Catherine Jones bleidlais o ddiolch i'r Cyng Alyn Ashworth am y modd yr oedd wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn ystod y flwyddyn 2023 / 2024.
- 6 Anerchiad y Maer:** Diolchodd y Maer oedd newydd ei hethol i'w Chynnygydd a'i Eilydd ac anerchodd y Cyfarfod.
- 7 Ethol Dirprwy Faer:** Cynigodd y Cyng Gaynor Wood-Tickle, eiliwyd gan y Cyng Lara Pritchard a phenderfynwyd ethol y Cyng Jan Tomlinson yn Ddirprwy Faer ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2024 / 2025. Darllenodd y Cyng Jan Tomlinson y Datganiad o Dderbyn Swydd ym mhresenoldeb Clerc y Dref, y Cynigydd a'r Eilydd, a'i lofnodi. Cyflwynodd y Maer Gadwyn y Swydd i'r Cyngorwyr Jan Tomlinson.

- 8 **Dychweliad Presenoldeb ar gyfer y flwyddyn 2023/2024:** Cyfeiriodd y Maer at y presenoldebau ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023/2023. Cafodd y Cyng Roy Tickle ac Andrew Hine eu henwi fel rhai oedd â phresenoldeb 100%.
- 9 **Penodi Caplan y Maer:** Penododd y Maer y Cyng Catherine Jones y Tad George Areekuzhy fel ei Chaplan ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2024 / 2025.
- 10 **Sul Dinesig :** Cyhoeddodd y Maer y byddai'r Gwasanaeth Dinesig yn cael ei gynnal yn Eglwys Gatholig San Joseff Dinbych ddydd Sul yr 20fed o Hydref am 3yp.
- 11 **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016:** Derbyniwyd hyn gan y cynghorwyr tref.
- 12 **Cytunwyd ar gofnodion hyfforddi gan y cynghorwyr tref.**
- 13 Gwahoddodd y Maer y Cyng Catherine Jones y pwysigion a'r gynulleidfa i ymuno â hi a'i chyd Gynghorwyr am luniaeth ar ddiwedd y cyfarfod.
- 14 **Y Fendith:** I ddod â'r achos i ben, rhoddodd Caplan y Maer, y Tad George Areekuzhy y Fendith.

Caeodd y Maer y cyfarfod am 19.07 yh.

Llofnod:.....

Dyddiad:.....